# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Lleoliad Allanol**

Dyddiad: Dydd Llun, 12 Hydref 2015

Amser: 13.00 - 17.40

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://senedd.tv/cy/3439

# Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Darren Millar AC (Cadeirydd)<br>Mike Hedges AC<br>Sandy Mewies AC<br>Julie Morgan AC<br>Jenny Rathbone AC<br>Aled Roberts AC<br>Andrew RT Davies AC (yn lle Mohammad Asghar (Oscar) AC)<br>Alun Ffred Jones AC (yn lle Jocelyn Davies AC) |
| Tystion: | Richard Anning, Cyn-aelod Bwrdd Cronfa Buddsodd Cymru mewn Adfywio<br>Richard Baker, Llywodraeth Cymru<br>Ceri Breeze, Cyn-aelod Bwrdd Cronfa Buddsodd Cymru mewn Adfywio<br>Owen Evans, Cyfarwyddwr, Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes, Llywodraeth Cymru<br>Richard Harris, Cyn-aelod Bwrdd Cronfa Buddsodd Cymru |

| | |
|---|---|
| | mewn Adfywio<br><br>Chris Holley, Cyn-aelod Bwrdd Cronfa Buddsodd Cymru mewn Adfywio<br><br>John Howells, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Buckle (Clerc)<br><br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br><br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)<br><br>Alistair McQuaid (Swyddfa Archwilio Cymru)<br><br>Mike Usher (Swyddfa Archwilio Cymru)<br><br>Huw Vaughan Thomas (Swyddfa Archwilio Cymru)<br><br>Nick Tyldesley (Prisiwr Dosbarth) |

## 1 Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio: Sesiwn friffio gan Swyddfa Archwilio Cymru

1.1 Cafodd yr Aelodau sesiwn friffio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## 2 Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio: Sesiwn friffio gyda Llywodraeth Cymru

2.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio gan Lywodraeth Cymru a thrafodwyd cwmpas yr ymchwiliad.

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 415KB) Gweld fel HTML (525KB)

## 3 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

3.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn falch bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn gallu cymryd rhan yn yr wythnos #SeneddAbertawe ac estynnodd ddiolch i'r staff yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau am eu cymorth yn cynnal y cyfarfod.

3.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mohammad Asghar. Dirprwyodd Andrew R T Davies ar ei ran.

3.3 Esgusododd Jocelyn Davies ei hun o dan Reol Sefydlog 18.8. Dirprwyodd Alun Ffred Jones ar ei rhan.

3.4 Gwnaeth yr Aelodau y datganiadau a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Darren Millar | Mae dwy lain o dir yn y portffolio yn ei etholaeth. |
| Alun Ffred Jones | Mae tir yn Fferm Goetre Uchaf, Bangor yn ei etholaeth. |
| Julie Morgan | Mae tir yn Llys-faen yn ei hetholaeth. |
| Jenny Rathbone | Cadeirydd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni. |
| Andrew R T Davies | Sawl llain o dir yn ei ardal etholaethol. |
| Aled Roberts | Sawl llain o dir yn ei ardal etholaethol.<br>Yn adnabod y Cynghorydd Chris Holley a Ceri Breeze o'i rôl flaenorol yn Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. |
| Mike Hedges | Yn adnabod y Cynghorydd Chris Holley o'i rôl flaenorol yn Arweinydd Dinas a Sir Cyngor Abertawe. |

## 4 Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio: Sesiwn Dystiolaeth 1

4.1 Craffodd y Pwyllgor ar waith swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol ar hyn o bryd am Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio, gan holi Owen Evans, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, John Howells, Cyfarwyddwr, Tai ac Adfywio, a Richard Baker, Cyd-bennaeth Dros Dro yr Adran Eiddo.

4.2 Cytunodd Owen Evans i anfon rhagor o wybodaeth am y canlynol:

- Copi o'r adroddiad prisio a luniwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru gan King Sturge (Jones Lang LaSalle erbyn hyn);
- Sut y cafodd yr asedau a aeth i'r portffolio a drosglwyddwyd i Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio eu dewis, ynghyd â manylion am unrhyw waith marchnata blaenorol gan Lywodraeth Cymru o ran yr asedau ym mhortffolio tir Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio a chopi o gofnodion y cyfarfod lle cytunwyd ar y dewis yn y portffolio;

- Yr ystyriaeth a roddir gan Lywodraeth Cymru i'r goblygiadau i Drysorlys y DU o ran refeniw treth yn y dyfodol wrth gytuno ar drafodion masnachol sydd ag endidau tramor;
- Eglurhad o statws cyfreithiol cysylltiad a chontract Llywodraeth Cymru ag Amber Infrastructure Ltd (fel Aelod Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig arall, ac fel Rheolwr Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio), a chyngor cyfreithiol Llywodraeth Cymru ar effaith bosibl unrhyw benderfyniad a wneir gan Lywodraeth Cymru i ddod â'r contract i ben.

## 5 Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio: Sesiwn Dystiolaeth 2

5.1 Craffodd y Pwyllgor ar waith pedwar cyn-aelod o Fwrdd Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio a benodwyd i'r Bwrdd gan Lywodraeth Cymru. Holwyd y canlynol:

- **Ceri Breeze**: Aelod o'r Bwrdd ers mis Mawrth 2010. Penodwyd yn Gadeirydd ym mis Hydref 2011. Ymddiswyddodd ym mis Hydref 2013;

- **Richard Anning**: Aelod o'r Bwrdd ers mis Rhagfyr 2010. Ymddiswyddodd ym mis Hydref 2013;

- **Y Cynghorydd Christopher Holley**: Aelod o'r Bwrdd ers mis Tachwedd 2010. Ymddiswyddodd ym mis Hydref 2013; a

- **Richard Harries**: Aelod o'r Bwrdd ers mis Gorffennaf 2012. Ymddiswyddodd ym mis Mehefin 2013.

5.2 Nododd y Cadeirydd fod Jonathan Geen, cyn-aelod o Fwrdd Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio, wedi gwrthod y gwahoddiad i ddod i'r sesiwn hon oherwydd gwrthdaro buddiannau.

5.3 Cytunodd cyn-aelodau o Fwrdd Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio i adolygu ac anfon unrhyw sylwadau a allai fod ganddynt ar brisiadau'r farchnad gan Savills (Ionawr 2012) ac adroddiad y Prisiwr Dosbarth ym mis Gorffennaf 2015.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

7.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.